

Amgueddfa Stori Caerdydd Ymweliadau a Gweithdai Dysgu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 - 4



DIDDOROL, DIFYR A RHYNGWEITHIOL

Amgueddfa Stori Caerdydd
Yr Hen Lyfrgell
Yr Aes
Caerdydd
CF10 1BH

Cardiff
Story
Museum

Amgueddfa
Stori
Caerdydd

029 2034 6214
storicaerdydd@caerdydd.gov.uk
www.storicaerdydd.com
www.facebook.com/cardiffstory
[@thecardiffstory](https://www.instagram.com/thecardiffstory)



Rydyn ni'n amgueddfa sy'n adrodd stori Caerdydd.

Rydyn ni'n amgueddfa hanes cymdeithasol sy'n golygu ein bod ni'n defnyddio straeon personol pobl i adrodd hanes Caerdydd.

BETH YDYN NI'N EI WNEUD?

Gall ymweld ag Amgueddfa Stori Caerdydd gynnig profiad dysgu diddorol, difyr a rhyngweithiol i ddysgwyr o unrhyw oedran.

Mae ein horielau yn edrych ar y newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol ac economaidd sydd wedi digwydd yn y ddinas drwy fywydau ei phobl.

Os ydych chi'n chwilio am weithdy dysgu ar unrhyw beth sy'n ymwneud â Chaerdydd, sut a pham y mae'r ddinas wedi newid a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywydau pobl... cysylltwch â ni nawr!

BETH SYDD YN YR ORIELAU?

Mae Caerdydd Mewn Cyd-destun yn ystyried sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o

borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw.

Mae arddangosiadau rhyngweithiol yn rhoi'r cyfle i chi grwydro drwy straeon pobl y ddinas, eu cartrefi, eu bywydau gwaith, yr adeiladau a'r drafnidiaeth a ddefnyddiwyd ganddyn nhw, y dociau, y cymunedau cynharaf a ymgartrefodd yng Nghaerdydd, perthynas Caerdydd â'r cymoedd a Chaerdydd fel dinas fodern.

Mae Lab y Ddinas yn cynnig profiad hyn yn oed yn fwy rhyngweithiol i blant ac oedolion. Mae Den Dewi yn annog dysgwyr yn y cyfnod sylfaen (0-5 oed) i ddysgu drwy wisgo i fyny a chwarae rôl.

Mae'r Gorsafoedd Gweithredu yn annog dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) i ystyried y pynciau siopa, mudo a'r Ail Ryfel Byd. Mae Astudiaethau Achos yn rhoi cyfle i ddysgwyr o bob oedran edrych ar eu hanes a'u treftadaeth.





GWEITHDAI DYSGU

Gall y gweithdai canlynol gael eu haddasu yn unol ag anghenion yr ysgol a gall rhai gael eu cynnig mewn ysgolion. Ffoniwch y Swyddog Dysgu ar 029 2034 6214 neu e-bostiwch storicaerdydd@caerdydd.gov.uk.

Stori mudo: cymunedau amrywiol Caerdydd

Amser - 1 awr
Cost - £4 (+TAW*) fesul myfyriwr
Uchafswm cyfranogwyr - 30

Dysgwch pam fod pobl o bedwar ban byd wedi heidio i Gaerdydd ac ymgartrefu yma. Bydd straeon personol yn cael eu defnyddio i edrych ar y themâu mudo i weithio, cyfleoedd newydd, gwrthdaro, rhyfel, teulu a ffrindiau.

Y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghaerdydd

Amser - 1 awr
Cost - £4 (+TAW*) fesul myfyriwr
Uchafswm cyfranogwyr - 30

Dysgwch am yr effaith a gafodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar Gaerdydd. Mae'r themâu'n cynnwys – aelodau o'r teulu yn gadael i ymuno â'r rheng flaen, ymladd â thechnolegau newydd, gorfodaeth filwrol, gwrthwynebwyr cydwybodol, menywod yn gweithio a'r trawma a effeithiodd ar genhedlaeth o ddynion ifanc.

Stori Caerdydd

Amser - 1 awr
Cost - £4 (+TAW*) fesul myfyriwr
Uchafswm cyfranogwyr - 30

Ar daith arbennig o'n horielau, bydd dysgwyr yn darganfod sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw. Os ydych chi'n gweithio ar thema benodol yn yr ysgol, gellir ei hymgorffori i mewn i'r gweithdy. Siaradwch â'n Swyddog Dysgu i gael rhagor o wybodaeth.

Creu arddangosfa

Amser: 4 awr
Cost - £16 (+TAW*) fesul myfyriwr
Uchafswm cyfranogwyr - 15

Mae hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd cyfranogwyr yn dysgu sut y gwnaethon ni greu Amgueddfa Stori Caerdydd a sut y gallan nhw greu eu harddangosfa eu hunain. Bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i adrodd straeon yn eu harddangosfa, yn edrych ar y gwahanol adnoddau y gallan nhw eu defnyddio ac yn ystyried sut y gallan nhw wneud eu harddangosfa'n ddiddorol i lawer o wahanol bobl.



Casglu Straeon Pobl - Gweithdy Hanes Llafar

Amser: 4 awr

Cost - £16 (+TAW*) fesul myfyriwr

Uchafswm cyfranogwyr - 15

Gall yr arddangosfa hon gael ei chynnig mewn ysgol.

Dysgwch sut i gasglu straeon personol pobl a datblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol. Bydd y gweithdy'n edrych ar ein rhesymau dros gasglu straeon personol pobl a sut rydyn ni'n gwneud hyn. Mae'n gyfle rhagorol i ddysgwyr ddatblygu sgiliau gwranddo, llafar a chwestiynu wrth iddynt gyfwrdd â phobl. Os ydych chi'n ystyried gwneud project arbennig yn yr ysgol lle byddwch chi'n casglu straeon pobl, byddai ein gweithdy Hanes Llafar yn gyflwyniad perffaith i'r gwaith.

Gweithdai Bagloriaeth Cymru

Amser - 4 awr

Cost - £4 (+TAW*) fesul disgybl

Rydyn ni'n cynnig diwrnod o weithgareddau i ddisgyblion sy'n astudio Bagloriaeth Cymru. Mae gweithdy a hwylusir, gweithdy trin gwrthrychau dan eich arweiniad chi a theithiau Canol y Ddinas / Bae Caerdydd yn galluogi disgyblion i edrych ar y newidiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol sydd wedi digwydd yng Nghaerdydd, Cymru a gweddill y byd.

Gallwn addasu'r hyn rydyn ni'n ei gynnig yn unol â nifer y myfyrwyr a'ch amserlen. Cysylltwch â'n Swyddog Dysgu i gael rhagor o wybodaeth.

Gweithdy a hwylusir

Amser - 1 awr

Uchafswm disgyblion - 30

Yn y gweithdy hwn, bydd ein Swyddog Dysgu'n cyflwyno'r newidiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol allweddol sydd wedi digwydd yng Nghaerdydd ers y 19eg ganrif. Bydd myfyrwyr yn dechrau deall pam ei bod hi'n bwysig i ni ystyried sut mae economeg a thechnoleg yn effeithio ar ein bywydau.

Bydd myfyrwyr yn ystyried -

- Datblygiadau technolegol yn y 19eg ganrif ac effaith hyn ar economi Caerdydd.
- Sut trodd llygad y byd at Gaerdydd a Chymru diolch i'r glo a thwf dociau Caerdydd.
- Stori'r cymunedau cynharaf a ddaeth i Gaerdydd, a chyfraniadau'r cymunedau hyn at Gaerdydd.
- Sut sicrhodd Caerdydd, gyda'i chyfoeth a'i hyder newydd, ei statws fel prifddinas Cymru.

Mae hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd disgyblion yn cael eu rhannu'n dimau, yn crwydro'r orielau ac yn rhoi cyflwyniadau grŵp.

Gweithdy trin gwrthrychau dan eich arweiniad chi

Amser - 1 awr

Uchafswm disgyblion - 30

Mae'r gweithdy trin gwrthrychau hwn, a arweinir gennych chi, yn gofyn i fyfyrwyr archwilio gwrthrychau a cheisio deunyddiau er mwyn ateb taflen waith. Bydd y broses hon yn annog myfyrwyr i ystyried y newidiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol a oedd yn digwydd yng Nghaerdydd ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, a'r effaith yr oedd y newidiadau hyn yn ei chael ar y ddinas a'i phobl.

Teithiau Canol y Ddinas a Bae Caerdydd

Taith Canol y Ddinas a Bae Caerdydd

Amser a argymhellir - 1-2 awr

Uchafswm disgyblion - 30

Mae angen dau athro i arwain y teithiau. Dylai un ddarllen y map, tra bod y llall yn darllen y cwestiynau y mae angen i'r myfyrwyr eu hateb drwy grwydro'r cyffiniau.

Mae'r teithiau hyn wedi'u dylunio i annog myfyrwyr i ystyried yr effaith y mae newidiadau technolegol, economaidd a chymdeithasol wedi'i chael ar Gaerdydd a sut mae hyn i'w weld yn yr amgylchedd ffisegol.

Her Menter a Chyflogadwyedd: Cynnyrch

Cewch eich herio i feddwl am syniad am gynnyrch i'w werthu yn siop Amgueddfa Stori Caerdydd. Byddwch yn dechrau drwy grwydro Amgueddfa Stori Caerdydd i gael cip ar yr amgueddfa, y bobl sy'n ymweld â hi a syniadau am gynnyrch y gallwn ei werthu yn siop Amgueddfa Stori Caerdydd.

Rydyn ni'n datblygu Heriau ar gyfer cwricwlwm newydd Bagloriaeth Cymru mewn perthynas â'r her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r project Unigol. Siaradwch â'n Swyddog Dysgu i gael rhagor o wybodaeth.



YMWELIAD HUNAN-DYWYS

Amser a argymhellir: 1.5 – 2 awr

Cost - £1.00 (+TAW*) fesul myfyriwr

Os byddai'n well gennych arwain eich ymweliad eich hun, gallwn roi taflenni gwaith i chi.

Gall ein hystafell Ddysgu fod ar gael am ginio am gost ychwanegol o £10.

Trefnwch ymweliad drwy gysylltu â'n Swyddog Dysgu ar 029 2034 6214 neu e-bostiwrch storicaerdydd@caerdydd.gov.uk

Y CAM NESAF

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn unrhyw rai o'n gweithdai, cysylltwch â'n Swyddog Dysgu ar 029 2034 6214 neu e-bostiwrch storicaerdydd@caerdydd.gov.uk

**Ni chodir TAW ar ysgolion Cyngor Caerdydd*



Cardiff
Story
Museum

Amgueddfa
Stori
Caerdydd